# Ffurflen cofrestru pleidle siwr
ar gyfer dinesydd Prydeinig sy'n byw tramor

**Ewch ar-lein**

Mae'n hawdd llenwi'r ffurflen hon ar-lein yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

## Ydw i'n gymwys i gofrestru?

Er mwyn cofrestru fel pleidleisiwr tramor mae'n rhaid i chi fod:

- yn ddinesydd Prydeinig sy'n byw tramor
- yn 16 oed neu'n hŷn (er na fyddwch yn gallu pleidleisio hyd nes eich bod yn 18).

Mae'n rhaid eich bod hefyd wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn y DU neu wedi bod yn preswylio (byw) yn y DU yn flaenorol.

## Ym mha etholiadau yn y DU alla i bleidleisio?

Fel pleidleisiwr tramor, rydych yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU.

## Sut i gofrestru i bleidleisio

1. Llenwch y ffurflen cofrestru pleidleisiwr hon.
2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi'r datganiad.
3. Dychwelwch eich ffurflen wedi'i chwblhau ac unrhyw dystiolaeth berthnasol i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Gallwch ddod o hyd i'r cyfeiriad a rhagor o wybodaeth yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**
4. Problem gyda'r ffurflen? Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol os oes angen cymorth arnoch i ddeall neu gwblhau y ffurflen hon – neu os oes angen y ffurflen hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall.

**Cofrestrwch i bleidleisio cyn gynted â phosibl,** neu efallai y bydd hi'n rhy hwyr i bleidleisio yn yr etholiad nesaf.

# Ffurflen cofrestru pleidleisiwr ar gyfer Dinesydd Prydeinig sy'n byw tramor

# Cofrestru i bleidleisio

Ysgrifennwch mewn **inc du** a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Llenwch yr holl adrannau gofynnol neu efallai y bydd oedi gyda'ch cais.

## 1 Eich enw a'ch cyfeiriad

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Eich cyfeiriad presennol tu allan i'r DU

Gwlad

Cyfeiriad gohebu (os yn wahanol)

Gwlad

## 2 Wedi symud tŷ yn ystod y 12 mis diwethaf?

Ticiwch. ☐ Nac ydw ☐ Ydw

Os ydych, rhowch unrhyw gyfeiriad blaenorol lle rydych wedi byw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu efallai y bydd oedi gyda'ch cais.

Cod post Gwlad

## 3 Eich dyddiad geni

D D M M B B B B

Os nad ydych yn gwybod beth yw eich dyddiad geni, rhowch wybod i ni pam a thiciwch un o'r canlynol os ydych:

O dan 18 oed ☐

18-75 oed ☐ 76 oed neu'n hŷn ☐

(Mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 7)

## 4 Eich rhif Yswiriant Gwladol

Bydd y rhif hwn i'w gael ar eich slip cyflog, neu ar lythyron swyddogol ynghylch treth, pensiynau neu fudd-daliadau.

Os na allwch ddarparu eich rhif Yswiriant Gwladol, dywedwch pam wrthym.

**Os ydych wedi darparu dyddiad geni A rhif Yswiriant Gwladol, ewch ymlaen i adran 6.**

**Os nad ydych wedi darparu dyddiad geni neu rif Yswiriant Gwladol, dylech ddarparu dogfennau ategol i'n helpu i brosesu'ch cais yn gyflymach. Ewch ymlaen i adran 5.**

## 5 Dogfennau ategol

**Dylech ond gwblhau'r adran hon os nad ydych wedi darparu dyddiad geni neu rif Yswiriant Gwladol.**

Dylech gynnwys copïau o'r dogfennau wrth anfon eich ffurflen gais **(peidiwch ag anfon fersiynau gwreiddiol),** neu ticiwch y blwch ar y gwaelod i ddweud na allwch ddarparu'r dogfennau.

Wrth anfon dogfennau, dylech ddarparu naill ai:

- copi o **UN** ddogfen o restr A neu
- copi o **UN** ddogfen o restr B **A** chopïau o **DDWY** ddogfen ychwanegol o naill ai rhestr B neu C neu
- copïau o BEDAIR dogfen o restr C.

**Dogfennau ategol rhestr A:**

- Pasbort
- Dogfen mewnfudo fiometrig (a gyhoeddwyd yn y DU yn unig)
- Cerdyn adnabod yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
- Trwydded yrru gyda llun (a gyhoeddwyd yn y DU, un o Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw)
- Cerdyn Adnabod Etholiadol Gogledd Iwerddon

**Dogfennau ategol rhestr B:**

Oni bai y nodir yn wahanol, mae'n rhaid i'r dogfennau hyn gael eu cyhoeddi yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.

- Trwydded yrru bapur (dim cerdyn-llun)
- Trwydded yrru gyda llun (nas cyflwynwyd yn y DU, un o Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw)
- Tystysgrif geni
- Tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil
- Tystysgrif mabwysiadu
- Tystysgrif arfau tanio (a roddwyd o dan Ddeddf Arfau Tanio 1968)
- Cofnod penderfyniad ar fechnïaeth (a gyhoeddwyd yng Nghymru neu Loegr)

**Dogfennau ategol rhestr C:**

Mae'n rhaid i'r dogfennau hyn gael eu cyhoeddi yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.

- Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu, neu lythyr cadarnhad cyfrif
- Bil cyfleustod
- Datganiad cerdyn credyd
- Datganiad o fudd-daliadau (neu hawl i fudd-daliadau)
- Datganiad morgais
- Ffurflen P45 neu P60
- Datganiad pensiwn
- Datganiad treth gyngor neu lythyr yn galw am dalu'r dreth gyngor

☐ **Ni allaf ddarparu'r dogfennau atodol**

(Mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 7)

**Os na allwch ddarparu'r dogfennau atodol, dylech gyflwyno'r ffurflen hon o hyd a bydd rhywun yn cysylltu â chi. Gall gymryd yn hirach i brosesu eich cais.**

## 6 Ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio yn y DU o'r blaen?

Ticiwch. ☐ Ydw (Ewch i adran 7A)

☐ Nac ydw (Ewch i adran 7B)

Os nad ydych yn gwybod os ydych wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn y DU yn flaenorol, ewch i adran 7B.

**Cwblhewch naill ai adran 7A neu 7B yn dibynnu ar eich ateb yn adran 6.**

## 7A Cyfeiriad blaenorol pan oeddech wedi'ch cofrestru yn y DU

**Dylech ond gwblhau'r adran hon os ydych wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn y DU yn flaenorol.**

Beth oedd y cyfeiriad llawn diwethaf lle roeddech wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn y DU?

Cod post

Tan ba ddyddiad (hyd eithaf eich gwybodaeth) oeddech chi wedi'ch cofrestru yn y cyfeiriad uchod?

M M B B B B

Sut cawsoch chi eich cofrestru? Ticiwch.

- ☐ Fel pleidleisiwr (domestig) cyffredin (Ewch i adran 9)
- ☐ Fel pleidleisiwr tramor (Ewch i adran 9)
- ☐ Fel pleidleisiwr sy'n gwasanaethu (Gwas y Goron, cyflogai y British Council, neu aelod o'r lluoedd arfog) (Ewch i adran 9)
- ☐ Fel rhywun heb gyfeiriad penodol na pharhaol (Ewch i adran 9)

## 7B Cyfeiriad blaenorol pan oeddech yn byw yn y DU

**Dylech ond gwblhau'r adran hon os ydych wedi byw yn y DU yn flaenorol ond heb eich cofrestru i bleidleisio yno.**

Beth oedd y cyfeiriad diwethaf lle wnaethoch fyw yn y DU?

Cod post

Pryd gwnaethoch adael y DU?

M M B B B B

Ticiwch un datganiad.

- ☐ Roeddwn yn ieuengach na 18 oed pan adewais y DU ac roedd fy rhiant neu warcheidwad wedi'u cofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad lle roeddwn i'n byw (Ewch i adran 8)
- ☐ Roeddwn yn ieuengach na 18 oed pan adawais y DU (Ewch i adran 9)
- ☐ Roeddwn yn hŷn na 18 oed pan adawais y DU (Ewch i adran 9)

## 8 Wedi gadael y DU pan oeddech yn ieuengach na 18?

**Dylech ond cwblhau'r adran hon os gwnaethoch adael y DU pan oeddech yn ieuengach na 18 oed ac roedd eich rhiant neu warcheidwad wedi'u cofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad lle roeddech yn byw ond doeddech chi eich hun ddim wedi'ch cofrestru i bleidleisio.**

Rhowch enw llawn eich rhiant neu warcheidwad.

Dyma fy: ☐ rhiant ☐ gwarcheidwad

☐ Rwyf wedi amgáu copi o'm tystysgrif geni

Ydy eich enw nawr yn wahanol i'r un ar eich tystysgrif geni?

Ticiwch. ☐ Nac ydy ☐ Ydy

Os ydy, rhowch eich enw blaenorol yn llawn.

Rheswm dros newid eich enw.

Ydy enw eich rhiant neu warcheidwad yn wahanol i'r enw a ddangosir ar eich tystysgrif geni, neu a yw wedi newid ers y tro diwethaf iddynt fod wedi'u cofrestru i bleidleisio?

Ticiwch. ☐ Nac ydy ☐ Ydy

Os ydy, rhowch eu henw blaenorol yn llawn.

Rheswm dros newid enw. (Os nad ydych yn gwybod, ysgrifennwch 'Ddim yn gwybod').

## 9 Wedi newid eich enw?

Os ydych wedi newid eich enw ers y tro diwethaf i chi fod wedi'ch cofrestru i bleidleisio neu'r tro diwethaf i chi fod yn byw yn y DU, rhowch eich enw llawn flaenorol.

Rhowch reswm hefyd dros newid eich enw. (Er enghraifft, efallai eich bod wedi priodi ac wedi newid eich enw).

## 10 Cysylltu â chi ynglŷn â'ch cais

Mae darparu rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost yn ein helpu cysylltu â chi'n rhwydd ac yn gyflym ynghylch eich cais. Os na allwn gysylltu â chi'n rhwydd, gall gymryd yn hirach i brosesu eich cais.

Rhif ffôn (dewisol)

Cyfeiriad e-bost (dewisol)

## 11 Dinasyddiaeth

Ticiwch yr un datganiad sy'n berthnasol i chi:

☐ Mae gennyf basbort Prydeinig cyfredol neu sydd wedi dod i ben sy'n nodi fy mod yn ddinesydd Prydeinig.

Rhif pasbort Prydeinig

Man cyhoeddi

Dyddiad cyhoeddi

D D M M B B B B

☐ Nid oes gennyf basport Prydeinig sy'n nodi fy mod yn ddinesydd Prydeinig ac ni chefais fy ngeni yn y DU cyn 1 Ionawr 1983.

Dyddiad y daethoch yn ddinesydd Prydeinig

D D M M B B B B

Esboniwch sut y daethoch yn ddinesydd Prydeinig (er enghraifft, brodoli).

Man a gwlad enedigol

☐ Nid oes gennyf basbort Prydeinig sy'n nodi fy mod yn ddinesydd Prydeinig, ond cefais fy ngeni yn y DU cyn 1 Ionawr 1983.

## 12 Y gofrestr agored

Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw un ei phrynu a'i defnyddio at lawer o ddibenion, gan gynnwys cadarnhau manylion enw a chyfeiriad a marchnata uniongyrchol.

☐ Ticiwch os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

(Mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 7)

## 13 Cofrestru'n ddienw?

☐ Ticiwch os ydych hefyd wedi cyflwyno cais i gofrestru'n ddienw.

## 14 Pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Dim ond yn y gorsaf bleidleisio lle rydych wedi'ch cofrestru y gallwch chi bleidleisio'n bersonol yn y DU, os ydych yno ar y diwrnod pleidleisio.

**Er mwyn pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, mae'n rhaid i chi gwblhau cais ar wahân.** Gwnewch gais ar-lein neu lawrlwythwch ffurflen gais yn **gov.uk/vote-uk-election.**

Fel arall, ticiwch sut hoffech pleidleisio isod a byddwn yn anfon ffurflen gais.

☐ Drwy'r post ☐ Drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar eich rhan)

## 15 Datganiad

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn ddinesydd Prydeinig ac nad wyf yn byw yn y DU.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir.

Deallaf y bydd yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi yn cael ei defnyddio ar y gofrestr etholiadol.

Deallaf os ydwyf yn rhoi camwybodaeth ar y ffurflen hon gan wybod hynny, y gallaf wynebu dirwy ddiderfyn a/neu hyd at chwe mis yn y carchar.

**Llofnod**

**Dyddiad**

D D M M B B B B

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.

## Eich cenedligrwydd

Efallai y bydd angen tystiolaeth ychwanegol arnom am eich cenedligrwydd neu efallai y byddwn yn gwirio'ch cenedligrwydd yn erbyn cofnodion y llywodraeth.

## Eich dyddiad geni

Os nad ydych yn gwybod beth yw eich dyddiad geni, rhowch y dyddiad rydych yn ei roi ar ddogfennau swyddogol (er enghraifft eich pasbort neu eich trwydded yrru) neu ticiwch un o'r blychau. Mae'ch dyddiad geni yn nodi pwy ydych ac yn cadarnhau eich cymhwysedd i bleidleisio.

## Dogfennau ategol

Gall y dogfennau yn rhestr C fod yr un math. Er enghraifft, gallwch ddarparu pedwar datganiad banc o fisoedd gwahanol.

## Y gofrestr agored

**Mae dwy gofrestr. Pam?**

Gan ddefnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr - y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir yn gofrestr olygedig hefyd).

**Mae'r gofrestr etholiadol** yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus.

Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, megis sicrhau mai dim ond pobl sy'n gymwys a all bleidleisio. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith, megis:

- canfod trosedd (e.e. twyll)
- galw pobl i wasanaeth rheithgor
- gwirio ceisiadau credyd

Mae'r **gofrestr agored** yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gellir ei phrynu gan unrhyw berson, cwmni neu sefydliad. Er enghraifft, caiff ei defnyddio gan fusnesau ac elusennau i gadarnhau manylion enw a chyfeiriad. Bydd eich enw a'ch cyfeiriad yn cael eu cynnwys yn y gofrestr agored heblaw eich bod yn gofyn iddynt gael eu tynnu. Nid yw tynnu eich manylion oddi ar y gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio.

Os ydych yn poeni y gallai cael eich enw neu gyfeiriad ar y gofrestr effeithio ar eich diogelwch, gallai fod opsiynau eraill ar gael i chi.

Mewn rhai amgylchiadau, gallwch gofrestru heb i'ch enw a'ch cyfeiriad ddangos ar y gofrestr.

I ddysgu mwy, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Mae'r manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth ar gael yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

Cewch ragor o wybodaeth ynghylch y ddwy gofrestr a sut gallent gael eu defnyddio yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

## Datganiad preifatrwydd

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolwr. Eu sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth bersonol yn y cais hwn yw bod y prosesu'n hanfodol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol ar y Swyddog Cofrestru Etholiadol i brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Os gwnaethoch optio allan o'r gofrestr agored, gall eich enw a'ch cyfeiriad ond cael eu defnyddio at ddibenion etholiadol a dibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith. Mae'r gyfraith yn caniatáu i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu democrataidd (gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, ac asiantau), canfod trosedd, gwysio rheithgor, a gwirio ceisiadau credyd.

Os na wnaethoch optio allan o'r gofrestr agored, gall unrhyw un brynu'ch enw a'ch cyfeiriad at lawer o ddibenion, gan gynnwys marchnata uniongyrchol.

I gael rhagor o wybodaeth yn ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i ofyn am gopi o'u datganiad preifatrwydd. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eu gwefan a'u manylion cyswllt yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**